**Rhif WG48364**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion ac Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig (Cymru)

Hydref 2023

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru,
WG48364, ISBN Digidol 978-1-83504-836-8

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 1
2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg .......... 1
3. Ymdrin â'r ymatebion .......... 1
4. Ymatebion i'r ymgynghoriad – Crynodeb Byr ac Ymatebion Llywodraeth Cymru 2
5. Y camau nesaf .......... 17

# 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig (Cymru) ("y Cod Ymddygiad"). Unwaith y bydd y Cod Ymddygiad wedi'i lunio, bydd yn gymwys i bob un sy'n dymuno cofrestru'n Arolygydd Adeiladu, p'un a yw'n gweithio yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus.

# 2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg

2.1. Cafwyd chwe ymateb i'r ymgynghoriad. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad nodi i ba un o'r 12 o fathau o sefydliadau a nodwyd ar y ffurflen yr oedd eu sefydliad yn perthyn (gan gynnwys opsiwn 'arall' hunanddynodedig). Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ymatebion a gyflwynwyd gan bob sector.

| Math o Sefydliad: Dewiswch un o'r canlynol: | Dewiswch un |
|---|---|
| Adeiladwr / Datblygwr | |
| Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | |
| Awdurdod Lleol | 2 |
| Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | 1 |
| Arolygydd Adeiladu Cymeradwy | 1 |
| Arolygydd Adeiladu Awdurdod Lleol | |
| Pensaer | |
| Gweithgynhyrchydd/y gadwyn gyflenwi | |
| Gweithiwr adeiladu proffesiynol | |
| Corff proffesiynol | 1 |
| Deiliad Adeilad/Preswylydd | |
| Parti arall sydd â diddordeb (rhowch fanylion) | 1 |

# 3. Ymdrin â'r ymatebion

3.1. Darparwyd ffurflen ymateb safonol er hwylustod, ond lle nad oedd ymatebwyr wedi defnyddio'r ffurflen, mae'r sylwadau wedi cael eu priodoli i'r cwestiwn mwyaf priodol.

3.2. Lle nad oedd ymatebwyr wedi ateb drwy ddefnyddio'r ymatebion safonol a gynigiwyd ond roeddent wedi nodi safbwynt eglur yn eu hateb, mae'r rhain wedi cael eu priodoli i'r ymateb hwnnw yn y dadansoddiad ystadegol. Er enghraifft, lle y defnyddiodd ymatebydd yr ymadrodd 'Rwy'n cefnogi'r cynnig', cafodd ei ymateb ei nodi'n ateb cadarnhaol. Lle nad oedd ymateb yn glir, cafodd atebion eu nodi'n rhai 'dim ymateb' yn y dadansoddiad ystadegol a chafodd yr ymatebion eu cynnwys yn y crynodeb o'r sylwadau.

# 4. Ymatebion i'r ymgynghoriad – Crynodeb Byr ac Ymatebion Llywodraeth Cymru

**Cwestiwn 1**
A yw cysondeb ar draws gwledydd (h.y. Cymru a Lloegr) yn bwysig i'ch sefydliad?

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 6 | 100% |
| **Nac ydy** | 0 | 0% |
| **Ansicr** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.1. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno bod cysondeb ar draws gwledydd yn bwysig i'w sefydliadau. Cyfeiriodd sylwadau at gysondeb fel modd i leihau'r baich a fyddai'n cael ei osod pe bai gofyniad i gofrestru ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr ac

4.2. i osgoi risg a chymhlethdod diangen, a allai arwain at anghysondebau yn y ffordd y darperir gwasanaethau a defnydd diangen o adnoddau a chost ariannol diangen.

**Cwestiwn 2**
Pa gyfleoedd/rhwystrau a allai ddatblygu yn eich barn chi pe câi safonau penodol eu datblygu i'r rhai hynny sy'n gweithredu yng Nghymru, yn hytrach na defnyddio safonau tebyg/unfath yng Nghymru a Lloegr?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.3. Nododd ymatebwyr y gallai gwahaniaethau sylweddol rhwng y ddwy system greu rhwystrau ym maes rheoli adeiladu a gwrthanogaeth i weithredu yn y ddwy wlad. Gallai hyn gael effaith andwyol o bosibl ar weithrediad proffesiwn sydd eisoes heb adnoddau digonol.

**Ymateb i Gwestiynau 1 a 2**

4.4. Rydym yn ystyried cysoni'r broses gofrestru mor agos â phosibl a dirprwyo'r broses gofrestru i'r Awdurdod Iechyd a Diogelwch (sef y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau yn Lloegr), a fyddai'n golygu system debyg iawn yng Nghymru a Lloegr.

## Wrth ystyried safon 1: cydymffurfio â'ch rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoleiddiol a phroffesiynol

**Cwestiwn 3**
A yw geiriad y safon yn glir?

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 3 | 50% |
| **Nac ydy** | 3 | 50% |
| **Ansicr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.5. Teimlai hanner yr ymatebwyr nad oedd y geiriad yn glir a gofynnwyd am fwy o eglurder ac arweiniad.

4.6. Awgrymwyd y dylid adolygu'r geiriad er mwyn bod yn gyson â rhannau eraill o'r Cod Ymddygiad.

**Cwestiwn 4**
Yn eich barn chi, a oes unrhyw faterion heb eu cynnwys neu heb eu cwmpasu'n ddigonol o ran cydymffurfio â'ch rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoleiddiol a phroffesiynol?
Os gwnaethoch ddewis oes, dywedwch wrthym ba faterion/risgiau nad ydynt wedi'u cynnwys neu wedi'u cwmpasu'n ddigonol yn eich barn chi?

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 3 | 50% |
| **Nac oes** | 3 | 50% |
| **Ansicr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.7. Teimlai hanner yr ymatebwyr fod materion ynglŷn â chydymffurfiaeth heb eu cynnwys.

4.8. Gofynnodd dau ymatebydd am fwy o eglurder ac arweiniad.

4.9. Awgrymwyd y dylid cynnwys mwy o gyfeiriadau at ddogfen Flex 8670 (cymwyseddau proffesiynol) y Sefydliad Safonau Prydeinig ac unwaith eto, gofynnwyd am fwy o arweiniad.

**Cwestiwn 5**
A oes unrhyw fathau o ymddygiad o fewn safon 1 y byddai arolygydd adeiladu cofrestredig yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio â nhw? Os gwnaethoch ddewis oes, nodwch beth y byddai arolygydd adeiladu cofrestredig yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio ag ef a'r rheswm.

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 1 | 17% |
| **Nac oes** | 5 | 83% |
| **Ansicr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.10. Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw ymddygiadau y byddai'n anodd i Gymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig gydymffurfio â nhw.

4.11. Nododd un ymatebydd y byddai'n anodd cadarnhau a ellir cydymffurfio'n llawn â'r ymddygiadau heb arweiniad pellach.

4.12. Gofynnodd ymatebydd arall am ystyriaeth i bennu terfyn amser penodol sy'n cynnwys yr amser sydd ei angen i ymchwilio a chadarnhau'n llawn a yw'r safon wedi cael ei thorri.

**Cwestiwn 6**
Pa agweddau, os o gwbl, o'r broses o gydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoleiddiol a phroffesiynol yn safon 1 y byddai'n fuddiol cael canllawiau pellach yn eu cylch? Esboniwch.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.13. Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod meysydd lle y byddai canllawiau ychwanegol yn fuddiol.

4.14. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys yr angen am fwy o eglurder ynglŷn ag ystyr termau penodol megis safonau'r diwydiant a chadw'n annibynnol a diduedd, a hefyd am fwy o gyfeiriadau at y rheoliadau adeiladu.

4.15. Gofynnodd un ymatebydd am enghreifftiau o'r hyn sy'n gyfystyr neu nad yw'n gyfystyr â “rhoi cyngor dylunio”.

**Ymateb i Gwestiynau 3 i 6**

4.16. Mae'r geiriad wedi cael ei adolygu i sicrhau bod cysondeb drwy'r holl ddogfennau a'u bod yn gliriach.

4.17. Rydym yn ystyried canllawiau ychwanegol.

4.18. Oherwydd natur amrywiol achosion o dorri'r safon, byddai'n anodd rhagnodi terfyn amser ar gyfer cwblhau ymchwiliad i achos o'r fath.

4.19. Ystyriwyd yr holl sylwadau yn ystod yr adolygiad o'r Cod Ymddygiad.

## Wrth ystyried safon 2: gofynion busnes

**Cwestiwn 7**
A yw geiriad y safon yn glir?

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 2 | 33% |
| **Nac ydy** | 3 | 50% |
| **Ansicr** | 1 | 17% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.20. Cymysg fu'r ymateb o ran y geiriad.

4.21. Ymhlith y sylwadau gofynnwyd am wahaniaeth cliriach rhwng rolau'r Arolygydd Adeiladu Cofrestredig / Awdurdod Lleol a rolau Cymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig, am ddileu'r geiriad 'lle y bo'n gymwys' er mwyn bod yn llai amwys, ac am ragor o arweiniad.

**Cwestiwn 8**
Yn eich barn chi, a oes unrhyw faterion a risgiau heb eu cynnwys neu heb eu cwmpasu'n ddigonol o ran cydymffurfio â gofynion busnes perthnasol? Os gwnaethoch ddewis oes, dywedwch wrthym ba faterion a risgiau nad ydynt wedi'u cynnwys neu wedi'u cwmpasu'n ddigonol yn eich barn chi?

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 4 | 67% |
| **Nac oes** | 2 | 33% |
| **Ansicr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.22. Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod materion a risgiau heb eu cynnwys neu heb eu cwmpasu.

4.23. Ymhlith y sylwadau gofynnwyd am fwy o gysondeb rhwng y Rheolau Ymddygiad Proffesiynol a'r Rheolau Safonau Gweithredol ac am gyfeirio at elfennau o'r Safonau Perfformiad Rheoli Adeiladu yn y Rheolau Ymddygiad Proffesiynol.

4.24. Nodwyd y dylid sicrhau na fydd yr awdurdod rheoleiddio yn camu y tu hwnt i'w rôl ac yn dod yn ‘feirniad moeseg’ o ran rheoli materion ariannol.

**Cwestiwn 9**
A oes unrhyw fathau o ymddygiad o fewn y safon y byddai arolygydd adeiladu cofrestredig yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio â nhw? Os gwnaethoch ddewis oes, nodwch beth y byddai arolygydd adeiladu cofrestredig yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio ag ef a'r rheswm.

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 3 | 50% |
| **Nac oes** | 3 | 50% |
| **Ansicr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.25. Cymysg fu safbwyntiau'r ymatebwyr.

4.26. Cyfeiriodd y mwyafrif o'r sylwadau a wnaed at yr angen am fwy o eglurder a gofynnwyd am ganllawiau. Caiff hyn ei ystyried wrth adolygu'r ddogfen.

4.27. Codwyd pryder hefyd ynglŷn ag effeithiau cadw rhai cofnodion am chwe blynedd ar ddiogelu data a'r gwahaniaethau rhwng rolau Cymeradwywyr Rheoli Adeiladu Cofrestredig a'u cyflogwr.

**Cwestiwn 10**
Yn eich barn chi, a oes unrhyw senarios lle y byddai'n briodol ymdopi ag achosion o wrthdaro buddiannau? Os gwnaethoch ddewis oes, nodwch y senarios hyn.

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 5 | 83% |
| **Nac oes** | 1 | 17% |
| **Ansicr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.28. Ymatebodd y rhan fwyaf 'oes' i'r cwestiwn hwn.

4.29. Ymhlith y senarios a restrwyd roedd y canlynol:
- y gallu i ddewis rheoleiddiwr
- ALI sy'n gweithio ar brosiectau datblygu mewnol ac ati
- Arolygydd Adeiladu Cofrestredig sy'n ymgymryd â ‘gwaith adeiladu’ ar ei eiddo ei hun
- Arolygydd Adeiladu Cofrestredig sy'n gweithredu fel contractwr ac y mae ganddo ei fusnes dylunio ei hun
- cyfranddaliwr

- cydberthnasau personol.

4.30. Gofynnwyd am eglurder ynglŷn â'r hyn sy'n gyfystyr â gwrthdaro buddiannau a chanllawiau ar ddarpariaeth ac amgylchiadau lle mae camau lliniaru yn dderbyniol.

**Cwestiwn 11**
Pa agweddau, os o gwbl, o'r broses o gydymffurfio â'r gofynion busnes perthnasol y byddai'n fuddiol cael canllawiau pellach yn eu cylch?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.31. Cymysg fu safbwyntiau'r ymatebwyr.

4.32. Cyfeiriodd y mwyafrif o'r sylwadau a wnaed at yr angen am fwy o eglurder ynglŷn â'r rheolau yn yr adran hon a'r canllawiau ategol.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.33. Mae adolygiad llawn o'r Cod Ymddygiad wedi cael ei gynnal er mwyn sicrhau mwy o eglurder.

4.34. Bydd yr adolygiad yn ceisio sicrhau bod y llinellau atebolrwydd, gofynion trin data, cyfrifoldebau cyfreithiol rhwng arolygwyr adeiladu a'u cyflogwyr, yn cael eu nodi'n glir.

## Wrth ystyried safon 3: cynnal cymhwysedd proffesiynol a datblygiad proffesiynol parhaus

**Cwestiwn 12**
A yw geiriad y safon yn glir?

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 3 | 50% |
| **Nac ydy** | 3 | 50% |
| **Ansicr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

4.35. Cafwyd rhaniad yn yr ymateb i'r cwestiwn hwn gyda hanner yn cytuno ei fod yn glir a'r hanner arall yn gofyn am fwy o eglurder, yn enwedig o ran y diffiniad o gymhwysedd a chyfrifoldebau a'r hyn a fwriadwyd gan y term “goruchwylio”.

**Cwestiwn 13**
A oes unrhyw faterion neu risgiau sydd ar goll neu nas cwmpesir yn ddigonol yn eich barn chi o ran cynnal cymhwysedd proffesiynol a datblygiad proffesiynol parhaus?

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 5 | 83% |
| **Nac oes** | 1 | 17% |
| **Ansicr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.36. Teimlai bron pob un o'r ymatebwyr fod materion a risgiau heb eu cynnwys neu heb eu cwmpasu'n ddigonol.

4.37. Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r sylwadau a wnaed at yr angen am fwy o eglurder a gofynnwyd am ganllawiau.

4.38. Gwnaed sylwadau ychwanegol yn gofyn am ragor o fanylion am y disgwyliad ynglŷn â datblygiad proffesiynol parhaus a'r gofynion ynglŷn â hyfforddiant technegol.

**Cwestiwn 14**
A oes unrhyw fathau o ymddygiad o fewn y safon y byddai arolygydd adeiladu cofrestredig yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio â nhw? Os gwnaethoch ddewis oes, nodwch beth y byddai arolygydd adeiladu cofrestredig yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio ag ef a'r rheswm.

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 1 | 17% |
| **Nac oes** | 5 | 83% |
| **Ansicr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.39. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw ymddygiadau y byddai'n anodd i Gymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig gydymffurfio â nhw. Roedd un ymatebydd yn anghytuno, a gofynnodd am fwy o arweiniad.

**Cwestiwn 15**
Pa agweddau, os o gwbl, o'r broses o gynnal cymhwysedd proffesiynol a datblygiad proffesiynol parhaus y byddai'n fuddiol cael canllawiau pellach yn eu cylch? Esboniwch.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.40. Gofynnodd ymatebwyr am fwy o arweiniad ynglŷn â'r gofynion i gyrraedd safonau disgwyliedig a chynnal cofnodion gofynnol a'r hyn a fyddai'n gyfystyr â goruchwyliaeth dderbyniol ar gyfer swyddogaethau/gweithgareddau cyfyngedig wrth ddefnyddio dull goruchwylio fideo o bell.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.41. Caiff adolygiad llawn o'r Cod Ymddygiad ei gynnal er mwyn sicrhau mwy o eglurder. Caiff yr holl sylwadau a wnaed eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn.

4.42. Bydd mwy o fanylion am y disgwyliadau ynglŷn â dilysu cymhwysedd a datblygiad proffesiynol parhaus yn dilyn wrth i'r cynlluniau ddatblygu.

## Wrth ystyried safon 4: safon gwasanaeth

**Cwestiwn 16**
A yw geiriad y safon yn glir?
Os gwnaethoch ddewis nac ydy, dywedwch wrthym ba eiriau nad ydynt yn glir?

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 3 | 50% |
| **Nac ydy** | 3 | 50% |
| **Ansicr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.43. Cafwyd rhaniad yn yr ymatebion gyda sylwadau a oedd yn cynnwys awgrymiadau manwl ynglŷn â newidiadau i'r geiriad, gan gynnwys: sicrhau bod y cod yn adlewyrchu'r ffaith y gallai rhywun weithio i fwy nag un cyflogwr a sicrhau bod yr arolygwyr yn gweithio er budd pennaf y cyhoedd ac nid y proffesiwn.

4.44. Gofynnwyd am fwy o arweiniad hefyd.

**Cwestiwn 17**
Yn eich barn chi, a oes unrhyw faterion/risgiau heb eu cynnwys neu heb eu cwmpasu'n ddigonol o ran safon y gwasanaeth?
Os gwnaethoch ddewis oes, dywedwch wrthym ba faterion/risgiau nad ydynt wedi'u cynnwys neu wedi'u cwmpasu'n ddigonol yn eich barn chi?

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 4 | 67% |
| **Nac oes** | 2 | 13% |
| **Ansicr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.45. Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod materion a risgiau heb eu cynnwys neu heb eu cwmpasu'n ddigonol.

4.46. Gwnaed awgrymiadau, gan gynnwys y canlynol: byddai canllawiau ychwanegol mewn perthynas â phennu cwmpas a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer prosiect penodol yn fuddiol, yn enwedig mewn achosion lle mae'r dyluniad neu'r contractwr (neu'r ddau) yn wael.

4.47. Beth mae'r safon yn ei olygu yn ymarferol a sut y caiff ei mesur er mwyn sicrhau mwy o gysondeb drwy'r sector cyfan, gan osgoi lefelau gwahanol o gyrhaeddiad drwy gamddehongli neu ailadrodd problemau'r gorffennol.

**Cwestiwn 18**
A oes unrhyw fathau o ymddygiad o fewn y safon y byddai arolygydd adeiladu cofrestredig yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio â nhw?
Os gwnaethoch ddewis oes, nodwch beth y byddai arolygydd adeiladu cofrestredig yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio ag ef a'r rheswm.

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 4 | 67% |
| **Nac oes** | 2 | 13% |
| **Ansicr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

4.48. Cymysg fu'r ymateb. Codwyd pryder ynglŷn â gallu Arolygydd Adeiladu Cofrestredig mewn Awdurdod Lleol i reoli llwyth gwaith derbyniol a sut y caiff hyn ei adlewyrchu o ran cydymffurfiaeth â'r ymddygiadau a amlinellir yn y safon.

**Cwestiwn 19**
Pa agweddau, os o gwbl, o safon y gwasanaeth y byddai'n fuddiol cael canllawiau pellach yn eu cylch? Esboniwch.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.49. Cafwyd tri ymateb.

4.50. Roedd y sylwadau yn cynnwys cais am fwy o arweiniad ac eglurder.

4.51. Codwyd pryder ynglŷn â gallu Arolygydd Adeiladu Cofrestredig mewn Awdurdod Lleol i reoli llwyth gwaith derbyniol a sut y caiff hyn ei adlewyrchu o ran cydymffurfiaeth â'r ymddygiadau a amlinellir yn y safon.

**Ymateb i Gwestiynau 16 i 19**

4.52. Mae adolygiad llawn o'r Cod Ymddygiad wedi cael ei gynnal er mwyn sicrhau ei fod yn fwy eglur. Cafodd yr holl sylwadau a wnaed eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn.

## Wrth ystyried safon 5: ymgysylltu â chleientiaid.

**Cwestiwn 20**
A yw geiriad yr holl safonau yn glir?
Os gwnaethoch ddewis nac ydy, dywedwch wrthym ba eiriau nad ydynt yn glir?

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 5 | 83% |
| **Nac ydy** | 1 | 17% |
| **Ansicr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.53. Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oedd y geiriad yn glir yn safon 5. Roedd y sylwadau yn cynnwys awgrym i newid y term cleient i randdeiliad ac adolygu'r term ‘rhaid i chi’ sy'n awgrymu gofyniad personol yn hytrach na sefydliadol.

4.54. Nododd un ymatebydd fod anghysondeb rhwng y Cod Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig a'r Rheolau Ymddygiad Proffesiynol ar gyfer Cymeradwywyr Rheoli Adeiladu Cofrestredig o ran cyfnodau cadw dogfennau.

**Cwestiwn 21**
Yn eich barn chi, a oes unrhyw faterion a risgiau heb eu cynnwys neu heb eu cwmpasu'n ddigonol o ran ymgysylltu â chleientiaid?
Os gwnaethoch ddewis oes, dywedwch wrthym ba faterion a risgiau nad ydynt wedi'u cynnwys neu wedi'u cwmpasu'n ddigonol yn eich barn chi?

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 3 | 50% |
| **Nac oes** | 3 | 50% |
| **Ansicr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.55. Cymysg fu'r ymateb. Awgrymwyd set safonol o delerau ac amodau, a gofynnwyd am fwy o arweiniad.

**Cwestiwn 22**

A oes unrhyw fathau o ymddygiad o fewn y safon hon y byddai arolygydd adeiladu cofrestredig yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio â nhw?
Os gwnaethoch ddewis oes, nodwch beth y byddai arolygydd adeiladu cofrestredig yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio ag ef a'r rheswm.

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 3 | 50% |
| **Nac oes** | 3 | 50% |
| **Ansicr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.56. Dywedodd hanner yr ymatebwyr fod mathau o ymddygiad o fewn y safon hon y byddai Arolygydd Adeiladu Cofrestredig yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio â nhw.

4.57. Ymhlith y rhain roedd y canlynol:

- Byddai'n well pe bai rhai o'r nodweddion yn cael eu cynnwys yn y Rheolau Safonau Gweithredol (ond ni nodwyd pa rai).
- Roedd angen ystyried cydymffurfiaeth â'r cyfnodau cadw dogfennau ymhellach a chael mwy o eglurder yn eu cylch.
- Enwi Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig unigol ar brosiectau, pan fyddant yn gweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol.

**Cwestiwn 23**

Pa agweddau, os o gwbl, o ymgysylltu â chleientiaid y byddai'n fuddiol cael canllawiau pellach yn eu cylch? Esboniwch.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.58. Awgrymodd bron pob un o'r ymatebwyr fod angen mwy o arweiniad.

4.59. Roedd y rhain yn cynnwys awgrymiadau ynglŷn â chadw dogfennau, templed ar gyfer trafodaethau â rhanddeiliaid ac anghysondeb o ran cyfnodau amser rhwng y Cod Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig a'r Rheolau Ymddygiad Proffesiynol ar gyfer Cymeradwywyr Rheoli Adeiladu Cofrestredig.

**Ymateb i Gwestiynau 20 i 23**

4.60. Mae adolygiad llawn o'r Cod Ymddygiad wedi cael ei gynnal er mwyn sicrhau mwy o eglurder. Mae'r holl sylwadau a wnaed wedi cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn.

4.61. Cynhaliwyd adolygiad o gyfnodau cadw dogfennau er mwyn cael gwared ar unrhyw anghysondebau lle y tybiwyd bod hynny'n briodol. Mae'r Cod Ymddygiad a'r Rheolau Ymddygiad Proffesiynol bellach yn nodi bod yn rhaid i chi gadw cofnodion penodol am 15 mlynedd.

4.62. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig unigol gael eu henwi fel rhan o brosiect am ei bod yn bwysig at ddibenion atebolrwydd. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr neu asiantau yn cael eu hysbysu am yr holl wybodaeth ar y rhestr hon ac, er enghraifft, os bydd Arolygydd Adeiladu Cofrestredig yn newid yn ystod oes prosiect, dylai'r ymgeisydd/asiant gael gwybod am hynny mewn modd amserol.

## Cwestiynau cyffredinol

**Cwestiwn 24**
Yn eich barn chi, a yw'r egwyddorion a'r safonau yn pennu lefel briodol o ymddygiad ac ymarfer proffesiynol? Os nac ydynt, esboniwch pam.

| | | |
|---|---|---|
| **Ydynt** | 2 | 33% |
| **Nac ydynt** | 3 | 50% |
| **Ansicr** | 1 | 17% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.63. Cymysg fu'r ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd tri o'r ymatebwyr a wnaeth sylwadau yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y safon.

4.64. Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o fanylion ac eglurder, a nododd un fod angen cysondeb rhwng y Rheolau Ymddygiad Proffesiynol, y Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Arolygwyr Adeiladau a'r Rheolau Safonau Gweithredol.

4.65. Nododd un ymatebydd fod potensial i'r safonau ymestyn i faterion moesol, yn enwedig o ran budd ariannol personol.

**Cwestiwn 25**
A oes unrhyw egwyddorion a/neu safonau eraill y dylid eu cynnwys yn y Cod Ymarfer?
Os gwnaethoch ddewis oes, nodwch y safonau y dylid eu cynnwys.

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 1 | 17% |
| **Nac oes** | 4 | 67% |
| **Ansicr** | 1 | 17% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.66. Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw beth heb ei gynnwys yn y Cod Ymddygiad.

4.67. Nododd un ymatebydd a oedd am weld rhywbeth ychwanegol fod angen arweiniad ynglŷn â sut y dylid dehongli'r Cod Ymddygiad.

**Cwestiwn 26**
A oes unrhyw beth yn y Cod Ymarfer a fyddai'n atal arolygydd adeiladu cofrestredig rhag cofrestru?
Os gwnaethoch ddewis oes, nodwch y ffactor a fyddai'n atal unigolyn rhag cofrestru.

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 2 | 33% |
| **Nac oes** | 3 | 50% |
| **Ansicr** | 0 | 0% |
| **Dim ymateb** | 1 | 17% |

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.68. Cymysg fu'r ymateb i'r cwestiwn hwn.

4.69. Cafwyd nifer o sylwadau cefnogol ynglŷn â'r cynigion ond roedd cytundeb cyffredinol bod angen mwy o eglurder ac arweiniad.

**Cwestiwn 27**
A oes unrhyw beth pellach yr hoffech ei ychwanegu?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.70. Gwnaeth tri ymatebydd sylwadau ar y cwestiwn hwn.

4.71. Cafwyd nifer o sylwadau cefnogol ynglŷn â'r cynigion ond roedd cytundeb cyffredinol bod angen mwy o eglurder ac arweiniad.

4.72. Cafodd rhai sylwadau penodol a wnaed mewn rhan arall o'r ymgynghoriad eu hailadrodd yma hefyd, e.e. cysoni terfynau amser ar gyfer cadw data.

**Ymateb i Gwestiynau 24 i 27**

4.73. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod thema gyffredin yn codi drwy'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad h.y. y gofynnir am fwy o arweiniad ac eglurder. Mae'r holl bwyntiau a godwyd wedi cael eu hystyried mewn adolygiad llawn o'r Cod Ymddygiad.

4.74. Mae gwaith wedi cael ei wneud i ddangos y berthynas rhwng y Cod Ymddygiad, y Rheolau Ymddygiad Proffesiynol a'r Rheolau Safonau Gweithredol a'r gwahaniaethau rhyngddynt ac i sicrhau cysondeb lle y bo'n briodol, gan gynnwys cysoni'r cyfnod cadw dogfennau.

**Cwestiwn 28**
Yn eich barn chi, a fydd unrhyw agwedd ar y Cod Ymarfer yn cael effaith andwyol ar y rhai hynny â nodweddion gwarchodedig?

| | | |
|---|---|---|
| **Bydd** | 1 | 17% |
| **Na fydd** | 5 | 83% |
| **Ansicr** | 0 | 0% |
| **Ddim yn gymwys** | 0 | 0% |

**Cwestiwn 29**
Os bydd, dywedwch wrthym ba agwedd ar y Cod Ymarfer fydd yn cael effaith andwyol ar y rhai hynny â nodweddion gwarchodedig, yn eich barn chi.

**Cwestiwn 30**
Ar gyfer pob agwedd rydych wedi'i nodi, dywedwch wrthym pwy y bydd yn cael effaith andwyol arnynt a sut.

**Crynodeb o'r ymatebion i Gwestiynau 28 i 30**

4.75. Ym marn y mwyafrif o'r ymatebwyr, ni fyddai effaith andwyol.

4.76. Roedd un o'r ymatebwyr yn anghytuno, ond ni wnaeth unrhyw sylwadau i ategu'r farn hon. Yn y sylw, rhybuddiwyd rhag cynnwys eitemau nad ydynt o bosibl yn gwbl berthnasol i ymarfer proffesiynol moesegol, a all arwain at ganlyniad anfwriadol.

**Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 28 i 30**

Ni wnaed unrhyw sylwadau ar y cwestiwn. Ystyriwyd y sylw a wnaed yn ystod yr adolygiad o'r Cod Ymddygiad.

**Cwestiwn 31**
Hoffem gael eich barn am yr effeithiau y byddai'r polisïau arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, ac yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.77. Nid oedd unrhyw sylwadau i'w hystyried.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.78. Nid oes unrhyw gamau pellach i'w cymryd ar hyn o bryd. Byddwn yn bwrw ymlaen i gyhoeddi'r Cod Ymddygiad yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ôl y bwriad.

**Cwestiwn 32**
Esboniwch hefyd sut yr ydych yn credu y gallai'r polisïau arfaethedig gael eu llunio neu'u newid fel eu bod yn effeithio'n gadarnhaol neu'n cael mwy o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac fel na fyddant yn cael unrhyw effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nodwch yma:

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.79. Nid oedd unrhyw sylwadau i'w hystyried.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.80. Nid oes unrhyw gamau pellach i'w cymryd ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 33**
Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, gallwch wneud hynny yma. Rhowch eich sylwadau yma:

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.81. Nid oedd unrhyw sylwadau i'w hystyried.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.82. Nid oes unrhyw gamau i'w cymryd ar hyn o bryd.

## 5. Y camau nesaf

5.1. Caiff y Cod Ymddygiad ei lunio'n derfynol yn unol ag ymateb y Llywodraeth uchod a'i gyhoeddi yn yr hydref.

5.2. Mae cyflwyno'r Cod Ymddygiad yn ofyniad newydd: mae canllawiau ategol yn cael eu datblygu a chânt eu cyhoeddi.

5.3. Pan fydd y canllawiau wedi'u cyflwyno, bydd Gweinidogion Cymru yn adolygu'r Cod Ymddygiad o bryd i'w gilydd lle y bo'n angenrheidiol ac yn briodol, gan ystyried safbwyntiau'r proffesiwn a rhanddeiliaid eraill.